

Polisi Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned Llanddarog

Mabwysiadwyd Rhagfyr 2019

Mae Cyngor Cymuned Llanddarog yn gweithio i ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safon byw ym mhentrefi Llanddarog, Porthyrhyd a Mynyddcerrig, trwy hyrwyddo datblygiad cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi nifer o grwpiau chwaraeon, diwylliannol a chymunedol sy'n chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned.

Mae Cyngor yn ceisio cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros les y gymdogaeth leol ac nae'n gweithio ar lefel lleol. Mae'n haen o'r llywodraeth leol sydd agosaf at y bobl, sef haen islaw'r Cyngor Sir. Mae ei gwaith yn syrthio i dri phrif gategori:

- a) cynrychioli'r gymuned leol
- b) rhoi gwasanaethau sy'n ateb anghenion lleol
- c) ymdrechu i wella ansawdd bywyd o fewn y gymuned

Mae'r prif swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyngor yn cynnwys:

- Cynnal mannau agored;
- Ystyried materion cynllunio;
- Gweithio ar y cyd â Phriffyrdd y Sir ar fesurau arafu traffig a gwelliannau i'r briffordd;
- Gweithio gyda'r heddlu i ddiogelu'r gymuned;
- Delio â materion lleol a godwyd gan y gymuned;
- Cynnal a chadw ac ynioli goleuadau troedffyrdd
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer coed a goleuadau Nadolig;
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer mudiadau gwirfoddol amrywiol lleol;
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer Elusennau yn y gymuned;
- Darparu a chynnal seddau cyhoeddus a hysbysfyrdau;
- Penodi cynrychiolwyr i nifer o gyrff lleol ac allanol;
- Enwebu cynrychiolwyr i'r ysgol gynradd leol;
- Llochesi bws / aros;
- Cydnabod cyrhaeddiad trwy ddarparu Gwobr Person Ifanc yn flynyddol;
- Cydnabod cyrhaeddiad trwy ddarparu Gwobr Gymunedol yn flynyddol;
- Comisiynu astudiaethau a gwaith mewn partneriaeth.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol. Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth trwy ddilyn nodau cynaliadwyedd ac arferion cynaliadwy pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu fel ymgynghorydd ar gynllunio ceisiadau a hyrwyddo digwyddiadau casglu sbwriel.

Ein targedau ar gyfer 2020 yw i:

- 1 Adolygu ein trefn / gweithgaredd torri gwair yn Llanddarog i annog blodau gwyllt a phlanhigion eraill sy'n gyfeillgar i beillwyr, tra hefyd yn darparu gorchudd ar gyfer mamaliaid bach ac ymlusgiaid. Byddwn yn gweithio gyda'n contractwr i hyrwyddo'r amcanion hyn;
- 2 I ystyried materion bioamrywiaeth wrth ystyried rhoi grantiau / rhoddion;
- 3 Byddwn yn ystyried materion bioamrywiaeth wrth rhoi'r gwobrau pobl ifanc / cymunedol;
- 4 Byddwn yn ailosod unrhyw goed y mae'n rhaid i ni eu disodli am resymau diogelwch / clefyd coed ynn 'ash dieback' yn ystod y flwyddyn.